**CBC CYMDEITHAS ERYRI**
**Cynhaliwyd ar ddydd Sadwrn 16 Tachwedd 2024 yn Yr Ysgwrn, Trawsfynydd**

Darllenwyd neges o ddiolch i Roger Thomas (Llywydd) gan yr aelodau.

1. **Ymddiheuriadau**

   Kevin Hall, Ellie Salisbury, Jacob Buis, Andy Tickle, Katherine Ellis, Helen Thomas, Bob Lowe, John Osley, Susan Osley, Nan Jones, Gwenda Jones, Maggie, Alwyn Oliver, Siân Turner, John Turner.

2. **Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol 2023**

Cymeradwywyd cofnodion y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a gynhaliwyd yn 2023 fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan Rob Collister ac eiliwyd gan Julian Pitt.

**Materion yn codi:**
Cododd aelod bryder ynghylch safbwynt y Gymdeithas ar y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig. Nodwyd, er na ddylai'r Gymdeithas wrthwynebu creu Parc Cenedlaethol newydd, y dylid rhoi unrhyw gefnogaeth gyda chyfyngiadau gofalus. Mynegwyd pryderon ynghylch gallu Llywodraeth Cymru i ariannu pedwar Parc Cenedlaethol, o ystyried y straen ariannol presennol sy'n cynnal y tri presennol.

3. **Adroddiad y Cyfarwyddwr – Rory Francis**

**Cydnabyddiaeth:**
- Mynegwyd gwerthfawrogiad i'r tîm ymroddedig, ymddiriedolwyr cydwybodol, dros 600 o wirfoddolwyr, ac aelodau cefnogol.
- Nodwyd ymadawiad yr aelodau o staff, Dan a Cai, i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a Molly ar ddiwedd ei chytundeb. Diolch i'r holl ymddiriedolwyr sy'n ymddeol.

**Gweithgareddau ac aelodaeth:**
- Mwy o weithgareddau eleni o ganlyniad i nawdd y Gronfa Ffyniant a Rennir.
- Mae'r aelodaeth wedi raddol brinhau; mae angen ymdrechion i gynyddu'r nifer.

**Argyfwng byd natur yng Nghymru:**
- Mae un o bob chwe rhywogaeth mewn perygl o ddiflannu o'r tir o fewn deng mlynedd.
- Mae parciau cenedlaethol wedi eu nodi fel cynefinoedd â blaenoriaeth yn yr adroddiad Gwiriad Iechyd.
- Cynllun strategol wedi ei gynhyrchu i fynd i'r afael â'r argyfwng byd natur.

**Ffermio a chadwraeth:**
- Mae 80% o Eryri yn dir ffermio; dyfodol bywyd gwyllt yn gysylltiedig ag ymarferion ffermio.
- Cefnogaeth i fentrau Llywodraeth Cymru sy'n gyfeillgar i ffermio.
- Cynnig am Wobr Ffermio dros Fywyd Gwyllt a Thirlun i gydnabod cyfraniadau positif.

**SDdGA Cwm Cynfal:**
- Gwrthwynebiad i gynlluniau am argae ac echdynnu dŵr.
- Cydweithrediad gydag Achub ein Hafonydd, Ymddiriedolaeth Fywyd Gwyllt Gogledd Cymru, a Buglife.
- Dros 1,000 o wrthwynebiadau wedi eu derbyn drwy gyfrwng ymgyrch ar y we.

**Cysylltiadau Grid:**
- Pryderon am gynlluniau'r Grid Cenedlaethol am gysylltiad o Fangor i Abertawe a fyddai'n effeithio ar Eryri.
- Trafodaethau ar y gweill gyda'r Grid Cenedlaethol.

**Tŷ Hyll:**

- Yn cael ei gydnabod fel ased treftadaeth gwerthfawr, ond pwysau ariannol o ganlyniad i'r les ar y caffi.
- Tim Maddox yn rhoi'r gorau i'r les, a chynlluniau i rentu i Jane Davies ar dermau newydd.

**Er cof:**

- Newydd trist am farwolaeth Max Grant, a chydnabyddiaeth i'w gyfraniad sylweddol i Tŷ Hyll ynghyd â'i wraig Margaret.

**Ymgysylltu ag aelodau:**

- Anogaeth i aelodau gymryd rhan mewn digwyddiadau gwirfoddoli, arwain teithiau neu weithgareddau, a gwahodd cyfeillion i ymaelodi.
- Yn agored i syniadau parthed mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd.

4. **Adroddiad y Cadeirydd – Sue Beaumont**

**Cydnabyddiaeth a chyflwyniad:**

- Diolch i Rory am gyflwyniad rhagorol, yn amlygu angerdd ac ymroddiad y tîm wrth fynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r parc o dan ei arweinyddiaeth.

**Grŵp adfocatiaeth:**

- Teyrnged i'r grŵp adfocatiaeth o dan arweinyddiaeth Julian Pitt, a chydnabyddiaeth i'w gwaith sylweddol wrth sicrhau bod y Gymdeithas yn parhau fel llais annibynnol sy'n derbyn parch drwy waith eiriolaeth a phrotestio.

**Newid yn yr Ymddiriedolwyr:**

- Ffarwel i David Walker a Chris Ball sy'n ymddeol.
- Cynlluniau i gadarnhau ymddiriedolwyr newydd yn ddiweddarach yn y cyfarfod.
- Cydnabyddiaeth arbennig i Rob Collister sy'n camu'n ôl ac i Netti am eu cyfraniadau rhyfeddol dros y degawdau.

**Rôl barhaol y Gymdeithas:**

- Pwysleisiwyd sut y bydd ein strategaeth a adolygwyd o 2024/2025 yn canolbwyntio ar adferiad byd natur.

**Pen-blwydd Parciau Cenedlaethol:**

- Nodwyd pen-blwydd Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, sy'n greiddiol i barciau cenedlaethol yn Lloegr a Chymru, yn 75 oed.

**Adroddiad Gwiriad Iechyd:**

- Soniwyd am yr adroddiad Gwiriad Iechyd gan yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol, fel yr amlygwyd gan y Cadeirydd.

5. **Adroddiad Project Cadwraeth – Chelsea Boden**

Cyflwynodd Chelsea Boden grynodeb o gyflawniadau ein tîm gwirfoddoli ymarferol. Diolchwyd i aelodau a gwirfoddolwyr oherwydd ni fyddai'r gwaith yma wedi cael ei wneud hebddyn nhw.

Cyfanswm y ffigurau: 175 diwrnod gwaith, 5,810 o oriau gan wirfoddolwyr, 344 o wahanol bobl wedi cymryd rhan, a rennir yn wahanol brojectau:

- Caru Eryri
- 65 diwrnod o ofalu am Eryri
- 600 o fagiau, cyfanswm 1,500kg
- 30km hyd o lwybrau

- Dwylo Diwyd
- 34 diwrnod
- 103 o wirfoddolwyr

- 725 o oriau gwirfoddoli
- 4,476 o goed wedi eu plannu

- Penwythnos MaD
- 52 o wirfoddolwyr a 404 awr

- Tirlun y Carneddau:
- 89 o wirfoddolwyr, a grwpiau.
- 393 awr
- 18 tystysgrif hyfforddi achrededig
-
- Llinellau yn y tirlun
- 19 digwyddiad
- 33 o wirfoddolwyr
- 256 o oriau gwirfoddol

**6. Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol – Hazwani Ibrahim**

- Adroddiad a chyfrifon blynyddol yr ymddiriedolwyr wedi bod ar gael ar ein gwefan.
- Mae gwelliant sylweddol o'i gymharu â'r llynedd oherwydd y grant GFG.
- Llai o wariant o'i gymharu â'r llynedd.
- Cymhariaeth rhwng y llynedd ac eleni wedi ei ddangos.

**7. Mabwysiadu Adroddiadau a Chyfrifon**

- ***Cynnig i fabwysiadu'r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol am y flwyddyn yn diweddu 30 Ebrill 2023***

Rhoddwyd y cynnig i fabwysiadu Adroddiad Blynyddol a chrynodeb ariannol 2023/24 ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 30 Ebrill 2043 ger bron gan Jane Davies; eiliwyd gan Elaine Cosgrove a'i dderbyn *nem con*.

- ***Cynnig i ail-benodi Williams Denton fel archwilwyr annibynnol o Gyfrifon y Gymdeithas am 2024/2025***

Rhoddwyd y cynnig i benodi Williams Denton fel archwilwyr annibynnol cyfrifon y Gymdeithas am 2024/2025 ger bron gan Rob Collister; eiliwyd gan David Forth, ac fe'i dderbyniwyd *nem con*.

**8. Ethol Swyddogion ac Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith:**

Cynigiwyd ethol y canlynol gan Netti Collister, eiliwyd gan Sue Beaumont, a'i basio *nem con*:

- Llywydd: Roger Thomas.

Cynigiwyd a chytunwyd gan yr holl aelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i ethol y canlynol.

- Sue Beaumont – Cadeirydd
- Jane Barbrook fel Is-gadeirydd
- Yn sefyll i gael eu hethol am y tro cyntaf: Richard Heavers, Mark Dakeyne, Rob Nicholson
- Ymddiriedolwyr yn ymddeol yn y CBC: David Walker, Chris Ball a Rob Collister.

**9. Newidiadau i'r cyfansoddiad**

Mae'r cyfansoddiad presennol, a fabwysiadwyd yn 2013, yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw newidiadau gael eu cymeradwyo yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Dosbarthwyd copi gyda'r agenda.

• **Newidiadau Arfaethedig**:

1. **Hyd Cyfnod Ymddiriedolwyr**:

▪ Eglurhad o Gymalau 13 a 17 i nodi y gall ymddiriedolwyr wasanaethu hyd at dri thymor o dair blynedd yr un.

2. **Hyd Cyfnod Swyddogion**:

▪ Cyflwynwyd terfyn amser ar gyfer swyddogion, gan ei alinio â'r ymddiriedolwyr. Gall swyddogion bellach wasanaethu hyd at naw mlynedd.

Cynigiwyd newidiadau gan David Archer ac eiliwyd gan Jane Barbrook; cawsant eu derbyn *nem con*.

**10. Cwestiynau i'r Cyfarwyddwr a'r Swyddogion**

- **Gwerthiant Plas Tan y Bwlch:**
  - Mynegwyd pryderon ynghylch colli cyfleusterau a'r posibilrwydd o golli mynediad cyhoeddus i'r tir, sydd ar hyn o bryd yn hygyrch trwy gwrteisi yn hytrach na thrwy'r gyfraith.
  - Ymateb:
    ▪ Mae'r Gymdeithas yn rhannu'r pryderon hyn ac wedi ysgrifennu yn breifat at Awdurdod y Parc yn eu mynegi ar ôl clywed am y bwriad i werthu.
    ▪ Cyhoeddwyd datganiadau i'r wasg hefyd, yn nodi safbwynt y Gymdeithas yn glir.
    ▪ Gohiriwyd y penderfyniad ar y gwerthiant am chwe mis.

- **Gostyngiad yn y Nifer o Aelodau:**
  - Cydnabuwyd bod y Swyddog Ymgysylltu blaenorol wedi chwarae rhan allweddol wrth ddenu aelodau newydd. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw un mewn rôl debyg.
  - Mae ffioedd aelodaeth yn rhesymol, ac mae angen ymdrech i gysylltu ag unigolion sy'n rhannu gwerthoedd y Gymdeithas.

• **Cyfethol Ymddiriedolwyr**
  - Sylwadau aelod: Dylai'r Gymdeithas fod yn ofalus gyda chyfethol er mwyn atal camddefnydd ac ystyried y nifer mwyaf o ymddiriedolwyr cyfetholedig.
  - Ymateb:
    ▪ Dim ond dros dro y mae ymddiriedolwyr cyfetholedig yn gwasanaethu, hyd at dri mis cyn sefyll i gael eu hethol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Mae hyn yn sicrhau y gall aelodau bleidleisio ar eu haddasrwydd.
    ▪ Mae proses recriwtio ffurfiol bellach ar waith, gan gynnwys cyfweliadau ar gyfer ymgeiswyr.

• **Cymal 27 – Newidiadau i Bolisïau Mewnol**:
  - Sylwadau: Dylid cyflwyno newidiadau polisi sylweddol i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol neu Gyfarfod Cyffredinol Eithriadol yn hytrach na'u penderfynu gan ymddiriedolwyr yn unig.

**Dyddiad y CBC nesaf**

Dyddiad arfaethedig – I'w gadarnhau